# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 29 Medi 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, S Gareth Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwr:- Siôn Ifans, Gareth W Jones, Gwen Lloyd, William N Owen.

Agorowyd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd yn croeso pawb yn ol ar ol seibinant dros yr haf tra roedd y Clerc yn yr ysbyty. Diolchodd y Clerc y Cynghorwyr i gyd am y croeso cynnes a pob dymuniad da yr oedd wedi cael gan pawb tra roedd yn yr ysbyty. Estynodd y Cadeirydd llongyfarchiadau i Cyng Dafydd Evans am ei lwyddiant yn y Sioe Frenhinol ac hefyd y Cor Meibion am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Cenedlaethol.

**16.45. Cofnodion cyfarfod 30 Mehefin 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.46. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.38.4 Golau ddim yn gweithio yn Cwmlline. Cadarnhaodd Cyng Ann Williams fod y golau rhif CL18 ym mhentref Cwmlline yn gweithio erbyn hyn.
16.42.1 Cronfa Cymunedol Melynau Gwynt Dyffryn Dulas. Eglurodd y Clerc fod y cyfle cyntaf i ymgeisio am cymorth ariannol ar fin dod i ben. Mae'n debyg fod y nifer ceisiadau wedi bod braidd yn siomedig ac mae'd debyg mi fydd ctyfle arall i ymgeisio am cymorth ariannol yn cychwyn cyn bo hir.

**16.47. Cynllunio.**
47.1 P/2016/0666. Cais i gosod ffenestr ar to rhif 15, Daulwyn, Llanwrin. Eglurodd y Clerc fod y cais yma wedi cael caniatad amodol.
47.2 P/2016/0780. Cais i codi estyniad i Ganolfan Iechyd Glantwymyn. Eglurodd y Clerc fod y cais yma wedi cael caniatad amodol.
47.3 P/2016/0168. Cais i rhyddhau nifer o amodau ar cais cynllunio P/2015/0987 i'r Dovey Valley Hotel yn Cemmaes Road. Cytunwyd cefnogi y cais.

**16.48. Eitemau i'w talu.**
48.1 Taliad am aelodaeth i Un Llais Cymru. Cytunwyd taliad o £186-00.
48.2 Taliad am stafell yn y Ganolfan. Cytunwyd taliad o £100-00.
48.3 Taliad i Zurich Municipal am yswiriant. Cytunwyd taliad o £703-63.
48.4 Cyflog y Clerc am tri Mis, Gorffenaf, Awst a Medi. Cytunwyd taliad o £750-00.
48.5 Cost cyfrifiadur newydd. Cytunwyd cyfraniad o £200 i'r Clerc am y cyfrifiadur newydd.

**16.49. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
49.1 Llywodraethwyr. Rhoddodd Cyng Aled Griffiths crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf gyda Ysgol Glantwymyn. Mae Mrs Bethan Gwawr Jones wedi cymeryd drosodd fel penaeth y federasiwn ysgolion lleol ond mae pryderon yn parhau ynglyn y sefyllfa ariannol..
49.2 Cais am arian i wella y cyfleusterau ogwmpas y Canolfan yng Nglantwymyn. Eglurodd Cyng Dafydd Evans ar rhan Cyng Sion Ifans fod swyddogion Cyngor Sir Powys yn gweithio ar cais newydd sylweddol.ar rhan yr ysgol. Cytunwyd ddylai'r Cyngor Cymuned aros am y tro gyda'u cais nhw i gweld beth sydd yn datblygu.
49.3 Ysgol Bro Hyydgen Machynlleth. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod Ms Betsan Ifan wedi gwneud cyflwyniad i'r llywodraethwyr. Mae'n debyg fydd y Cyngor Sir yn rhoi ddatganiad i'r wasg cyn bo hir am datblygiad sylweddol i'r ysgol.
49.4 Fforwm Cleifion. Ymddiheurodd Cyng Gwenfair Davies fod ganddi dim newyddion oddiwrth y Fforwm Cleifion.

**16.50. Gohebiaeth.**

50.1 Llythr yn rhoi gwahoddiad i gweithrediad yn Y Trallwng i cyhoeddi enillydd cystadleuaeth Pentref y Blwyddyn yn ardal Nhrefaldwyn.

50.2 Llythr ynglyn y newidiadau i terfynau yr ardal etholaeth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gohirio unrhyw penderfyniad ar ymateb tan y cyfarfod nesaf.

50.3 Llythr gan Rheilffordd Corris y gwahodd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i gyfarfod yn yr Institiwt yng Nghorris i thrafod cynlluniau'r rheilffordd at y dyfodol. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

50.4 E-bost gan Clerc Cyngor Cymuned Corris ynglyn pryderon am yr amser i ail agor y ffordd fawr yn diyn damwain. Cytunwyd cefnogi ymgryrch Cyngor Cymuned Corris i lleoli yr offer addas yn y Canolbarth.

50.5 E-bost gan Jane Lloyd Francis, Carregyfuddan, Abercegir ynglyn problemau cael "broadband" yn y dyffryn. Cytunwyd cefnogi pryderon Ms Francis.

50.6 E-bost gan Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys gyda manylion ymgynghoriad. Cytunwyd ymateb a phwysleisio pwysigrwydd y gwasaneth Heddlu yn ardaloedd cefn glwad.

50.7 E-bost gan PAVO yn cynnig aelodaeth am ddim. Cytunwyd aelodi.

50.8 E-bost gan Mr Del Morgan, Un Llais Cymru yn cyhoeddi marwolaeth Mr Chris Backshall, cyn Cadeirydd Pwyllgor Ardal Maldwyn o Un Llais Cymru.

50.9 E-bost gan Cyngor Sir Powys ynglyn y sefyllfa diweddaraf gyda Cynllyn Lleol Powys.

**16.51. Unrhyw fater arall.**

51.1 Ymddeoliad Cyng Gwilym P Fychan. Cadarnhaodd Cyng Gwilym Fychan ei fwriad i ymddeol o'r swydd Cynghorydd Sir dros ardal Cadfarch a Glantwymyn. Esboniodd ei fod wedi cynrychioli'r ardal ar y Cyngor Sir ers 1995, ac wedi cynrychioli ardal Cadfarch ar y cyn Cyngor Dosbarth Malwyn ers 1976.

51.2 Gorsaf Pwmpio Cwmlline. Eglurodd Cyng Deryck Lewis for y gorsaf pwmpio yn Cwmlline yn parhau i creu problemau gyda dwr budr yn llifo i'r afon ar nifer achlysur dros yr haf. Cytunwyd ysgrifennu at Severn Trent am y sefyllfa ac hefyd i Russell George AM ac yr adran Iechyd ac Amgylchedd yn Cyngor Sir Powys.

51.3 Twll yn Fford Llanwrin. Eglurodd Cyng Dafydd Evans fod yna twll yn gwyneb y ffordd ger mynediad Glanfechan. Atgoffodd Cyng Huw Williams fod yna hefyd problem gyda cerrig yn disgyn i'r cae o'r ffordd yn y safle yma. Cytunwyd cysylltu gyda Cyngor Sir Powys am y problemau yma.

51.4 Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Eglurodd Cyng Gareth Owen fod yna problem yn ddatblygu gyda sbwriel yn cynyddu ger un o'r tai. Cytunwyd cysylltu gyda Tai Canolbarth Cymru.

51.5 Pont Evans. Eglurodd Cyng Huw Williams fod y ffens pren ger y bont mewn cyflwr gwael. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.

51.6 Tyfiant coed uwchben Poesnant. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod yna pryder am cyflwr nifer o'r coed ar hyd ochr y ffordd fawr uwchben Poesnant. Cytunwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir.

51.7 Cyflwr Llwybr yr Eglwys yn Darowen. Eglurodd Cyng Geraint Wigley fod cyflwr y llwybr sydd yn arwain at drws yr eglwys yn wael iawn. Cytunwyd fe ddylai'r Clerc cwrdd gyda Cyng Geriant Wigley a Chyng John Pughe Jones i edrych ar y sefyllfa a mynd ati i cael prisiau am y gwaith sydd angen.

51.8 Ffordd Darowen ger Tynant. Eglurodd Cyng John Pughe Jones fod y dibyn ar draws y ffordd yn creu problemau i gyrrwyr sydd ddim yn gyfarwydd gyda'r sefyllfa. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod y problem yma wedi cael ei dynnu at sylw swyddogion y Cyngor Sir.

51.9 Japanese Knotweed. Eglurodd Cyng Gwyn Jones fod y Japanese Knotweed yn cynyddu ar hyd y rheilffordd cyferbyn a Goleufryn, Cemmaes Road. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw Network Rail.

51.10 Cod Ymddygiad Newydd. Eglurodd y Clerc fod yn hanfodol i'r Cyngor ystyried a derbyn Cod Ymddygiad Newydd. Cytunwyd derbyn y Cod Newydd.

51.11 Trefniadau Newydd i'r Ymchwiliad. Eglurodd y Clerc ei fod yn hanfodol i penodi archwilydd newydd. Cytunwyd penodi cwmni Whittingham Riddell o'r Drenewydd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 27 Hydref 2016.**